Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb
Making communications work for everyone

# Adolygiad o'r Farchnad Terfynu Galwadau Symudol 2018-2021: Ymgynghoriad Pellach

Ymgynghoriad ar restr arfaethedig o'r darparwyr gwasanaeth terfynu galwadau symudol sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 17 Tachwedd 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 15 Ionawr 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae gwasanaeth Terfynu Galwadau Symudol (MCT) yn wasanaeth cyfanwerthol a ddarperir gan ddarparwr symudol i gysylltu galwad i gwsmer (h.y. derbynnydd yr alwad) ar ei rwydwaith. Pan fydd darparwyr gwasanaethau symudol neu sefydlog yn gadael i'w cwsmeriaid ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr gwasanaethau symudol sy'n terfynu'r alwad, sef Cyfradd Terfynu Galwadau Symudol (MTR). Mae'r cyfraddau MTR yn cael eu gosod fesul munud, ac yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.

Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ein cynigion i reoleiddio'r farchnad MCT yn y dyfodol. Roeddem wedi cynnig gosod rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith ar bob darparwr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad (SMP) a rheolaeth ffioedd ar bob galwad.

Ers mis Mehefin, rydym wedi cael gwybodaeth am bum cwmni llai arall sy'n darparu gwasanaethau symudol, a oedd heb eu cynnwys yn y rhestr arfaethedig o ddarparwyr gwasanaethau symudol sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin. Rydym ni o'r farn y dylid eu dynodi hwythau hefyd yn ddarparwyr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad, ac y dylai'r rhwymedigaethau rheoleiddio fod yn berthnasol iddynt hwythau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein newidiadau arfaethedig i'r rhestr o ddarparwyr gwasanaethau symudol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, a'n cynigion i osod amodau pŵer sylweddol yn y farchnad ar y darparwyr ychwanegol sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr honno.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar y newidiadau arfaethedig hyn.

# Cynnwys

## Adran

1. Ymgynghoriad 1

## Atodiad

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 5
A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 6
A3. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad 7
A4. Cwestiynau’r ymgynghoriad 8

# Ymgynghoriad

## Ymgynghoriad Mehefin 2017

1.1 Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ein cynigion i reoleiddio'r farchnad MCT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2021 ("Ymgynghoriad Mehefin 2017")[1]. Ar y sail a nodir yn yr ymgynghoriad hwnnw, roeddem wedi cynnig y diffiniad canlynol o'r farchnad:

*"termination services that are provided by [named mobile communications provider] ("MCP")*[2] *to another communications provider, for the termination of voice calls to UK mobile numbers*[3] *allocated to the MCP by Ofcom in the area served by that MCP and for which that MCP is able to set the termination rate".*

1.2 Roeddem wedi nodi dros dro bod cyfanswm o 80 marchnad ar wahân ar gyfer gwasanaethau cyfanwerthol. Mae'r rhain yn cyfateb i bob un o'r pedwar cwmni rhwydwaith symudol mwyaf a'r 76 o ddarparwyr symudol[4] sydd â llai o danysgrifwyr (darparwyr MCT llai) sy'n darparu gwasanaeth MCT ar hyn o bryd, neu rydym yn disgwyl y byddant yn gwneud hynny yn ystod cyfnod yr adolygiad.

1.3 Roeddem wedi dod i gasgliad dros dro fod gan bob un o'r darparwyr MCT hyn bŵer sylweddol yn y farchnad berthnasol gyfatebol, ac wedi cynnig gosod amodau pŵer sylweddol yn y farchnad a fyddai'n cyflwyno rhwymedigaethau mynediad i rwydwaith a rheolaethau ffioedd. Roedd y darparwyr MCT hyn wedi'u rhestru yn Atodiad 13 i Ymgynghoriad Mehefin 2017 ("Rhestr Mehefin 2017")[5].

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

1.4 Rydym nawr yn cynnig dynodi pum darparwr ychwanegol (Esendex Ltd, Lanonyx Telecom Ltd, Spacetel UK Ltd, Voicetec Ltd ac X-Mobility Ltd) yn ddarparwyr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad[6] , a gosod amodau unioni arnyn nhw hefyd.

1.5 Dylid darllen y ddogfen hon, sy'n nodi ein cynigion, ar y cyd ag Ymgynghoriad Mehefin 2017 (sydd hefyd yn cynnwys ein hasesiad o effaith ein cynigion o dan adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr adran hon a chwe atodiad ategol:

- Atodiad 1: Ymateb i'r ymgynghoriad hwn
- Atodiad 2: Egwyddorion ymgynghori Ofcom

[1] Mae Ymgynghoriad Mehefin 2017 ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/mobile-call-termination-market-review

[2] Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y darparwyr hyn fel darparwyr MCT, pan fydd yn briodol.

[3] At ddibenion yr adolygiad hwn, rydym yn diffinio rhifau ffôn symudol yn y DU fel y rhifau hynny sy'n dilyn y fformat 07xxx xxx xxx ac yn dechrau â 071 i 075 a 077 i 079.

[4] Mae hyn yn cynnwys dau o gyrff y llywodraeth (y Swyddfa Gartref a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol) sydd wedi cael ystodau rhifau symudol.

[5] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/103343/mobile-call-termination-consultation-annexes.pdf

[6] Yn ogystal â thynnu enwau nifer fach o'r rheini roeddem wedi cynnig eu dynodi o'r blaen.

- Atodiad 3: Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad
- Atodiad 4: Cwestiynau'r ymgynghoriad
- Atodiad 5: Yr amodau arfaethedig ar gyfer pŵer sylweddol yn y farchnad
- Atodiad 6: Rhestr dros dro o’r darparwyr MCT sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad

## Diweddaru’r rhestr o’r cwmnïau sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad

1.6 Yn yr ymgynghoriad pellach hwn, rydym yn cynnig bod pum darparwr MCT arall yn cael eu hychwanegu at Restr Mehefin 2017. Mae’r darparwyr hynny wedi’u hychwanegu at y rhestr yn Atodiad 6 yr ymgynghoriad hwn. Mae’n diweddaru Rhestr Mehefin 2017 i gynnwys y darparwyr MCT hynny sydd, ers dyddiad Ymgynghoriad Mehefin 2017, wedi cadarnhau wrth Ofcom eu bod naill ai: (i) yn cynnig gwasanaeth MCT[7] ar hyn o bryd; (ii) yn bwriadu cynnig gwasanaeth MCT cyn diwedd cyfnod yr adolygiad yn 2021[8]; (iii) wedi gwneud cais i Ofcom i drosglwyddo ystodau rhifau symudol a oedd wedi’u neilltuo’n flaenorol ac a oedd yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth MCT [9]; neu (iv) yn darparu gwasanaethau eraill sy’n dod o dan y diffiniad o’r farchnad MCT[10]. Ar sail hynny, rydym wedi nodi dros dro bum cwmni arall llai sy’n darparu gwasanaeth MCT ar hyn o bryd, neu rydym yn disgwyl y byddant yn gwneud hynny yn ystod cyfnod yr adolygiad.[11] [12]

1.7 Rydym yn cynnig defnyddio’r un dull, ar yr un sail, ar gyfer y diffiniad o’r farchnad a phenderfynu ar bŵer sylweddol yn y marchnadoedd perthnasol fel y nodwyd yn Ymgynghoriad Mehefin 2017 (darllenwch adran 3 yn benodol). Am y rhesymau a nodwyd yno, rydym yn cynnig dynodi pob darparwr MCT sydd wedi’i restru yn Atodiad 6 – y rheini sydd eisoes wedi cael eu hysbysu fel rhan o Ymgynghoriad Mehefin 2017 a’r rheini sydd wedi’u hychwanegu o’r newydd at y rhestr – fel darparwr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad gyfanwerthol (arfaethedig) ar gyfer terfynu galwadau symudol i rifau ffôn yn y DU.

[7] Lanonyx Telecom Ltd.
[8] Esendex Ltd.
[9] X-Mobility Ltd.
[10] Spacetel UK Ltd a Voicetec Systems Ltd.
[11] Fel y rhagwelwyd yn Ymgynghoriad Mehefin 2017, cafwyd y wybodaeth ychwanegol hon yn sgil ceisiadau ffurfiol am wybodaeth a anfonwyd gan Ofcom yn unol ag adran 135 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 at y darparwyr MCT perthnasol ar 5 ac 16 Hydref 2017, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol a gafwyd ynghylch y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol. Mae’r rhestr hon sydd wedi’i diweddaru yn cynrychioli dealltwriaeth Ofcom o’r farchnad MCT ar 13 Tachwedd 2017.
[12] Rydym hefyd yn tynnu enwau nifer fach o’r darparwyr hynny roeddem wedi cynnig eu dynodi o’r blaen oherwydd nad oes ganddynt yr ystodau rhifau symudol sydd wedi’u neilltuo gan Ofcom erbyn hyn, neu oherwydd eu bod wedi cadarnhau mewn hysbysiadau statudol nad ydynt yn darparu gwasanaethau MCT ac na fyddant yn gwneud hynny yn ystod cyfnod yr adolygiad. Dym’r darparwyr hynny: 09 Mobile Ltd, AMSUK Ltd, British Telecommunications plc, Cloud9 Communications Ltd, Dynamic Mobile Billing Ltd, Edge Telecom Ltd, Hay Systems Ltd, ac Invomo Ltd.

1.8 Rydym hefyd yn cynnig gosod yr amodau unioni isod ar bob Darparwr MCT sydd wedi’i restru yn Atodiad 6 (unwaith eto, y rheini a gafodd wybod am y cynnig ym mis Mehefin 2017, a’r rheini sydd wedi’u hychwanegu o’r newydd at y rhestr):[13]

[13] Ar hyn o bryd, mae’r amodau a gynigir ar gyfer pŵer sylweddol yn y farchnad yn defnyddio’r diffiniad o rif ffôn symudol a gynigiwyd yn Ymgynghoriad Mehefin 2017. Erbyn hyn, mae Ofcom wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar newidiadau i’r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y “Cynllun”) o ran rhifau ffôn symudol (ewch i https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/107601/consultation-clarifying-mobile-numbers.pdf). Os bydd Ofcom yn penderfynu mabwysiadu’r newidiadau a gynigir i’r Cynllun, byddwn hefyd yn ystyried a fyddai’n briodol addasu geiriad yr amod a gynigir ar gyfer pŵer sylweddol yn y farchnad. Nid fyddem yn ceisio addasu ei effaith (byddai’n dal yn berthnasol i alwadau i’r ystodau rhifau perthnasol). Ond mae’n bosib y byddwn yn ceisio symleiddio’r drafft er mwyn sicrhau’r effaith honno yn sgil unrhyw newidiadau i’r Cynllun.

**Tabl 4.1: Crynodeb o'r amodau unioni arfaethedig ar gyfer MCT**

| Amod Pŵer Sylweddol yn y Farchnad | Disgrifiad | I bwy mae'n berthnasol |
|---|---|---|
| **M1** | Rhwymedigaeth mynediad i rwydwaith (ar gais rhesymol ar delerau ac amodau teg a rhesymol) | Pob darparwr MCT |
| **M2** | Rheolaeth ffioedd (sy'n cael ei gosod gan ddefnyddio safonau costau LRIC) ar gyfer pob galwad, ni waeth ym mhle mae'r alwad wedi cael ei gwneud[14] | Pob darparwr MCT |

1.9 Unwaith eto, mae'r sail dros yr amodau unioni arfaethedig wedi'i nodi yn Ymgynghoriad Mehefin 2017 (darllenwch adrannau 4, 5 a 6). Yn ôl ein hasesiad dros dro, mae'r profion statudol perthnasol ar gyfer gosod yr amodau unioni yn cael eu bodloni, ac mae'r ddogfen honno yn egluro hynny.

## Y camau nesaf

1.10 Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n cynigion cyffredinol ynghylch y farchnad cyfanwerthol ar gyfer terfynu galwadau symudol i rifau ffôn symudol. Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad hyd yma mewn perthynas â'r cynigion a nodwyd yn Ymgynghoriad Mehefin 2017. Rydym yn rhoi sylw i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd, a byddwn yn eu hystyried wrth wneud ein penderfyniad terfynol. Felly, rydym yn gwahodd sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn y ddogfen hon i ddiweddaru'r rhestr o ddarparwyr MCT sydd wedi'u dynodi'n ddarparwyr sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad neu'r marchnadoedd perthnasol – fel y nodir yn Atodiad 6 – ac i osod arnynt yr amodau arfaethedig ar gyfer pŵer sylweddol yn y farchnad.

1.11 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 15 Ionawr 2018.

1.12 Rydym yn bwriadu rhoi gwybod i'r Comisiwn Ewropeaidd am ein penderfyniad terfynol ynghylch rheoliadau MCT erbyn mis Chwefror 2018, a chyhoeddi datganiad erbyn mis Mawrth 2018.

[14] Rydym hefyd yn cynnig amod M2.3 a fyddai'n mynnu bod pob darparwr MCT sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad yn cyflwyno gwybodaeth i Ofcom yn flynyddol ar y rheolaeth(au) MTR a wnaed yn y flwyddyn flaenorol berthnasol.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a’ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi’u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 15 Ionawr 2018.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr oddi ar wefan Ofcom. Gallwch ei dychwelyd dros e-bost neu drwy’r post i’r cyfeiriad sydd wedi’i nodi ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw’ch ymateb yn ffeil fawr neu’n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall, gallwch ei hanfon dros e-bost at MCT.2018@ofcom.org.uk, cc: lucy.reid@ofcom.org.uk fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â’r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae’r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 1 Ebrill 2018.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i’r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi’i farcio arnynt:

Lucy Reid
Ofcom
Fourth Floor
125 Princes Street
Edinburgh EH2 4AD

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill hefyd, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu’ch ymateb. Ni ddylai’r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma’r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- Gallwch wneud fideo ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu’ch ymateb, a’i lwytho i fyny i YouTube yn uniongyrchol (neu safle arall sy’n gallu delio â fideos o’r fath) ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.7 Nid oes angen copi papur o’ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio’r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi farn; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai’n ddefnyddiol petai modd i’ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i’r cwestiynau sy’n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae’r cwestiynau’n cael eu rhestru yn Atodiad 4. Byddai’n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi’n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.10 Mae Ofcom yn croesawu ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg, ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na’r ymatebion a gawn drwy gyfrwng y Saesneg.

A1.11 Os ydych chi eisiau trafod y materion a’r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Lucy Reid ar 0131 220 7317 neu anfonwch e-bost at lucy.reid@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.12 Mae ymgyngoriadau’n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi’r ymatebion cyn i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy’n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â’r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni’n credu ei bod hi’n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A1.13 Os ydych chi’n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i’ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno’n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu’ch ymateb.

A1.14 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi’u marcio’n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi’u rhoi o dan drwydded i Ofcom i’w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use.

## Y camau nesaf

A1.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad erbyn mis Mawrth 2018.

A1.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion ewch i https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges dros e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.20 Os hoffech chi drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk